

# DOLEN Y TAB – 51

16–17 EBRILL 2021

---

## \*Oedfa Bore Sul 18 Ebrill\*

Oedfa Deuluol yng ngofal Manon a Geraint Huws

---

## Oedfaon dros yr wythnosau nesaf

### Ebrill

25 Geraint Rees

### Mai

2 Emlyn Davies

9 Y Parchg. Aled Edwards

---

## Hefyd Dydd Sul 18 Ebrill . . .

### 12:00 Oedfa Radio Cymru

Yng ngofal y Parchg. Beti-Wyn James, Caerfyrddin.

### 12:30 Radio Cymru – Bwrw Golwg

John Roberts a'i westeion yn trafod materion moesol a chrefyddol.

### 19:30 S4C Dechrau Canu, Dechrau Canmol

Yr wythnos hon bydd Nia yn codi'r llen ar hanes rhyfeddol Llanilltud Fawr.

### E-fwletin Cristnogaeth21

Bob bore Sul

[www.cristnogaeth21.cymru](http://www.cristnogaeth21.cymru)

---

## Bwrdd y Cyfarwyddwyr

Erbyn hyn mae aelodau'r Bwrdd yn ddigon cartrefol gyda chynnal y cyfarfodydd misol dros Zoom, ar waetha'r dyhead i gwrdd wyneb-yn-wyneb unwaith yn rhagor. Yn gynharach yr wythnos hon, yng nghyfarfod mis Ebrill o'r Bwrdd, cafwyd trafodaethau bywiog ar nifer o faterion oedd ar yr agenda. Ymhlith yr eitemau hynny roedd yr angen i bwysu a mesur adroddiad yr Is-bwyllgor Arloesi a Buddsoddi. Yn dilyn trafodaeth bwyllog ac adeiladol cytunodd y Bwrdd i dderbyn casgliadau'r adroddiad mewn egwyddor, ond penderfynwyd y dylid rhannu argymhellion yr Is-bwyllgor gydag aelodau'r Tabernacl trwy dudalennau'r *Ddolen*. Felly mae'r ail dudalen yr wythnos hon wedi ei neilltuo'n llwyr i'r datblygiad hwn ac yn gwahodd sylwadau aelodau'r eglwys iddo.

## Yr Amryddawn Edwyn

Yr wythnos ddiwethaf, a hynny o flaen criw dethol o dystion ceg-agored, fe ddangosodd Edwyn fod ganddo dalent arall i'w hychwanegu at y rhai y gwyddom yn dda amdanynt yn barod. I hwyluso'r gwaith o glirio rhagor o'r tyfiant yn y ddaear ar bwys y fynwent, huriwyd JCB bach i godi a symud gwreiddiau nifer o goed a llwyni. Gydag Edwyn yn llywio'r peiriant yn feistrolgar, cyflawnwyd gwaith trwm iawn fyddai wedi cymryd dyddiau lawer o lafur caled gyda bôn braich – a hynny o fewn ychydig oriau'n unig. Eisoes mae'r freuddwyd o sefydlu gardd gymunedol yn codi stêm, sy'n dod â ni at yr esboniad a roddodd Edwyn pan holais ef ble a sut y dysgodd lywio JCB. Roedd ei ateb yn un dadlennol, sef wrth wirfoddoli i gynorthwyo gwaith Ymddiriedolaeth Rheilffordd Llangollen i adfer rhan o hen lein rhwydwaith trenau'r GWR rhwng Rhiwabon a'r Bermo.



*Edwyn wrth lywio'r jac codi baw*

## Pigion o Cenn@d

Ers lansio *Cenn@d* gan Eglwys Bresbyteriaidd Cymru ar y cyd ag Undeb y Bedyddwyr rai wythnosau'n ôl, mae modd darllen ei gynnwys wythnosol difyr yn rhad ac am ddim dros y rhyngwryd (<https://www.Cennad.Cymru>). Ar dudalen flaen y rhifyn cyfredol (14 Ebrill) ceir ymateb grymus Angharad Tomos i'r Mesur Heddlu a Throseddau *'Serious Annoyance'* sy'n cynnwys y cymal dadleuol bod siawns y gall person dderbyn hyd at ddeng mlynedd o garchar am brotestio. Mae Angharad yn dadlau bod rheidrwydd ar i Gristnogion a diwygwyr cymdeithasol barhau i wrthwynebu'r anghyfiawnder sydd o'n cwmpas er mwyn ceisio newid y drefn. Heb rym gwleidyddol, does fawr o ddewis gennym ond ymgyrchu a phrotestio er mwyn tynnu sylw at amgylchiadau truenus llawer o drigolion y byd. Hefyd yn yr un rhifyn o *Cenn@d* mae'n werth troi at adroddiad amserol a gobeithiol Denzil John, Caerdydd, at waith arwrol eglwysi Cristnogol rhannau o Syria dan amgylchiadau peryglus iawn yn dilyn deng mlynedd o ymladd difaol yn y wlad. Mae'r adroddiad yn gosod ein pryderon ni am ddyfodol ein heglwysi yng Nghymru yn y cyfnod ôl-pandemig mewn persbectif.

## Canolfan Garth Olwg

### Sgwrs y Mis:

Cipolwg ar enwau lleoedd Taf Elái gyda  
Dr Dylan Foster Evans

7.30yh Iau 22 Ebrill 2021

I gofrestru ar gyfer y sgwrs dros Zoom ewch i . . .  
[www.bookwhen.com/gartholwg](http://www.bookwhen.com/gartholwg)

# Datblygu'r Cynllun Arloesi a Buddsoddi

Yn rhifyn 47 o **Dolen y Tab** (19–20 Mawrth), cyhoeddwyd adroddiad cynhwysfawr ar waith yr Is-bwyllgor Arloesi a Buddsoddi ar ôl iddo gynnal ei gyfarfod cyntaf ar 1 Chwefror. Fe gofiwch i'r Is-bwyllgor gael ei sefydlu gan y Bwrdd i weld a oedd modd i'r Tabernacl ymuno â Rhaglen Arloesi a Buddsoddi'r Undeb. Nod y cynllun hwn yw cynnig nawdd i eglwysi i'w galluogi i *'fuddsoddi yn eu dyfodol drwy fentro mewn ffyrdd newydd ac arloesol o hyrwyddo'r Efengyl, ac estyn allan i wasanaethu eu cymunedau a'u hardaloedd'*. Gall lefel cefnogaeth ariannol yr Undeb i unrhyw broiect fod hyd at £10,000 y flwyddyn am gyfnod hyd at 5 mlynedd.

Rhag ailadrodd yr hyn a gyflawnwyd gan yr Is-bwyllgor hyd at ganol mis Mawrth, dyma grynoded fesul cam:

**Cam 1** – cynnal dadansoddiad SWOT i gymryd stoc o'r hyn y credai aelodau'r Is-bwyllgor oedd cryfderau a gwendidau'r Tabernacl, a nodi'r bygythiadau a'r cyfleoedd wrth edrych ymlaen i'r dyfodol.

**Cam 2** – gwahodd aelodau'r Bwrdd i ymateb i'r dadansoddiad, a da oedd gweld eu bod yn atgyfnerthu dealltwriaeth y pwyllgor o gyflwr presennol yr achos ond hefyd yn cynnig sawl awgrym gwerthfawr am y dewisiadau posib.

**Cam 3** – gan fod consensws mai un o brif heriau'r dyfodol fydd cynnal diddordeb yr ieuentid yng ngwaith yr eglwys trefnwyd i ymgynghori gyda dau grŵp ar wahân, sef aelodau'r Twmiaid a rhieni plant a phobl ifanc a hynny mewn cyfarfodydd dros Zoom. Un o brif gasgliadau'r ymgynghoriad gyda'r grwpiau hyn oedd eu bod yn rhoi blaenoriaeth uchel i gefnogi prosiectau yn y gymuned ac ymwneud â gwaith elusennol yn enw'r eglwys.

Erbyn i'r Is-bwyllgor gwrdd ar ddiwedd mis Mawrth, roedd y dystiolaeth a gasglwyd ganddynt ymhlith carfannau cynrychioliadol o'r achos yn dangos yn glir iawn mai datblygu gwaith ymhlith ieuentid yr eglwys, ynghyd â gweithgareddau cymunedol ac elusennol, oedd y trywydd y dylid ei ddilyn. Cytunwyd hefyd fod rheidrwydd i benodi swyddog cyflogedig i ddatblygu'r prosiect law-yn-llaw gydag aelodau'r eglwys os oedd am wireddu ei lawn botensial, yn arbennig o hyrwyddo gwaith y Tabernacl a chydweithio gyda sefydliadau cymunedol ac ysgolion lleol.

## Partneriaeth Bosib

Gan fod rhaglen yr Undeb yn annog creu partneriaeth gydag eglwys neu eglwysi eraill, a chan ein bod yn tybio efallai y byddai capeli cyfagos yn awyddus i ffurfio partneriaeth, fe gysylltwyd â Chapel Bethlehem, Gwaelod y Garth, i holi a oedd ganddynt ddi-ddordeb

mewn ymuno â'r Tabernacl i gyflwyno cais am nawdd yr Undeb ar y cyd. Nos Lun diwethaf trefnwyd cyfarfod o aelodau'r Is-bwyllgor a thri o gynrychiolwyr Capel Bethlehem i drafod y posibilrwydd o greu partneriaeth i gyflogi swyddog fyddai'n ysgogi a chydlynu gwaith ieuentid a chymunedol yn ein heglwysi. Cafwyd cyfarfod buddiol iawn, ac roedd yn amlwg fod Bethlehem yn rhannu llawer o'n pryderon am gollir to iau.

Er bod ymateb y tri yn un cadarnhaol, roeddynt yn pwysleisio bod angen ymgynghori gyda Phwyllgor y Diaconiaid cyn gosod y mater o flaen Cwrdd Eglwys cyn y gellid ymrwmo i ddatblygiad o'r fath. Felly bydd angen aros am ychydig cyn y byddwn yn gwybod a ydynt am dderbyn ein gwahoddiad ai peidio. Y cam nesaf fyddai trafod manylion y cynllun gyda'r Parchg. Robin Samuel, Swyddog Cynnal ac Adnoddau yr Undeb, cyn symud ymlaen i gyflwyno cais ffurfiol am nawdd. Wrth gwrs, petai Bethlehem yn penderfynu gwrthod y gwahoddiad i ymuno â ni mewn partneriaeth, bydd raid i'r Bwrdd drafod a ydym am gyflwyno cais ar ein liwt ein hunain ai peidio.

## Yr Ymrwymiad Ariannol

I gyflogi swyddog llawn amser, byddai'r gost oddeutu £30,000 y flwyddyn. Un o fanteision ffurfio partneriaeth gydag eglwys arall yw y byddai ymrwymiad y Tabernacl yn £10,000 y flwyddyn, gyda'r gweddill yn dod gan yr Undeb a'r partner arall. Os mai'r dewis yw bod galw ar i'r Tabernacl wireddu'r cynllun ar ei liwt ei hun, yna bydd angen i'r Bwrdd naill ai ariannu dwy ran o dair o gost swydd llawn amser neu hysbysebu'r swydd fel un ran amser (24 awr yr wythnos).

## Cyfarfod Ebrill y Bwrdd

Fel yr adroddwyd ar y dudalen gyntaf, gwyntyllwyd y datblygiadau diweddaraf yn fanwl yng nghyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd nos Fawrth. Cytunodd y Bwrdd i dderbyn casgliadau'r adroddiad mewn egwyddor, ond nodwyd fod angen llunio rhagor o fanylion am gyfrifoldebau'r swydd ynghyd â'r nodweddion personol a'r profiad blaenorol a ddisgwyliid. **Penderfynodd y Bwrdd hefyd y dylid rhannu argymhellion yr Is-bwyllgor ag aelodau'r Tabernacl trwy'r Ddolen ac estyn croeso iddynt gyflwyno eu sylwadau ar y prosiect arfaethedig i'r Bwrdd erbyn dydd Llun 26 Ebrill.** Dylid anfon y sylwadau hyn at yr Ysgrifennydd ar gyfrif e-bost Capel y Tabernacl [capelytabernacl@gmail.com](mailto:capelytabernacl@gmail.com) neu trwy lythyr i Tal-y-fan, 9 Gerddi'r Sofran, Meisgyn, Pontyclun, CF72 8SZ.

*Cylchlythyr wythnosol yw **Dolen y Tab** i ledaenu newyddion trwy gyfrwng e-bost, Facebook a gwefan y capel. Gofynnir i chi anfon unrhyw newyddion erbyn nos lau at: 07710 237327 / 01443 225205.*

